# Busnes Cymdeithasol Cymru

## Cynhadledd 2025

**Herio am newid:**
**Adeiladu mudiad ar gyfer cysylltiad a newid cydweithredol**

Cymunedau'n Cefnogi Cymunedau
Communities Supporting Communities

enterprise, employment, empowerment

## Amdanom ni

Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, darparwyd Busnes Cymdeithasol Cymru gan gonsortiwm o sefydliadau sy'n cynnwys Cwmpas, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, Cwmnïau Cymdeithasol Cymru, UnLtd, a'r WCVA.

Mae'n rhan o wasanaeth Busnes Cymru.

Mae Busnes Cymdeithasol Cymru yn darparu cefnogaeth ddwys wyneb-i-wyneb i fusnesau cymdeithasol ledled Cymru sy'n awyddus i ehangu neu greu swyddi.

## Neges wrth Glenn Bowen

Cyfarwyddwr Menter, Cwmpas



Ar draws Cymru, rydym yn gweld trawsnewidiad tawel yn y ffordd y mae sefydliadau yn blaenoriaethu gwerth. Nid yw'n ddigon i fesur contractau mewn punnoedd a cheiniogau.

Mae gwerth, heddiw, yn ymwneud ag effaith – y newid cadarnhaol a grëir i bobl, lleoedd a'r blaned.

Dyna'r addewid sydd wrth wraidd caffael gwerth cymdeithasol.

Mae'n harneisio pŵer cyfunol y sectorau cyhoeddus, preifat a chymdeithasol i ddarparu nwyddau a gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n cryfhau cymunedau, ac yn blaenoriaethu'r economi leol.

Mae Deddf Partneriaethau Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn rhoi pwyslais newydd ar werth cymdeithasol a gwaith teg. Mae cydweithio'n gadarn ar yr agenda.

Mae caffael yn tueddu i gael ei ystyried fel drafodion. Dyfernir contract, cyflwynir gwasanaeth.

Ond pan fydd awdurdodau lleol, busnesau, a mentrau cymdeithasol yn dod at ei gilydd yn ystod y cyfnod cynllunio, gall llawer mwy digwydd. Mae'r sgwrs yn newid, ac yn sydyn gall caffael ddod yn offeryn ar gyfer arloesi, partneriaeth, ac effaith hirdymor. Mae mentrau cymdeithasol yn dod â mewnwelediad dilys o brofiad byw a chydnerthedd cymunedol.



Mae awdurdodau lleol yn dod â graddfa a chyfrifoldeb. Mae cwmnïau'n dod â buddsoddiad, arloesedd, a chyrhaeddiad yn y gadwyn gyflenwi. Gyda'u gilydd, gallant gyflawni canlyniadau na allai neb eu cyflawni ar ei ben ei hun. Yr her nawr yw adeiladu ar yr enghreifftiau hyn a gwneud cydweithio mewn i'r norm.

Mae Busnes Cymdeithasol Cymru yn galw ar arweinwyr ar draws pob sector i ailystyried rôl caffael, ac i ymuno â mudiad sy'n tyfu lle mae pob punt a werir yn meithrin cydnerthedd cymunedol, lles ac economi decach.

Ar y 9fed o Hydref yng Nghynhadledd Busnes Cymdeithasol Cymru, bydd lleisiau o'r sector menter cymdeithasol yn rhannu eu storiâu o herio a thrawsnewid, ac wedi hynny byddwn yn dathlu'r gorau o'r sector menter cymdeithasol Cymru gyda Gwobrau Busnes Cymdeithasol Cymru.

Bydd yn gyfle i fusnesau, awdurdodau lleol, a mentrau cymdeithasol gysylltu, cydweithio, hybu caffael gwerth cymdeithasol, a dylunio economi Cymru yn y dyfodol gyda'i gilydd.

**Nid ychwanegiad yw gwerth cymdeithasol.**
**Mae'n rhan o'r stori gyfan.**

# Amserlen

**13:30** **Cofrestu yn agor**

**14:00** **Sesiwn agored a chroeso**

- Sian Lloyd, newyddiadurwraig a darlledwraig
- Y Cynghorydd John Spanswick, arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Bethan Webber, Prif Swyddog Gweithredol Cwmpas
- Richard Hughes, Prif Swyddog Gweithredol Awen
- Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros yr Economi, Ynni a Chynllunio (Fideo)

**14:25** **Cyfleoedd i fentrau cymdeithasol yn deillio o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023**

Dr Jane Lynch, Cyfarwyddwr, Canolfan Caffael Gwerth Cyhoeddus, Ysgol Fusnes Caerdydd

**14:45** **Storïau o'r Sector - Masnachu rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat**

- Mark McKenna, Cyd-sylfaenydd a PSG, Down to Earth
- Rachel Probert, arweinydd Gwerth Cymdeithasol, Trafnidiaeth Cymru

**15:05** **Profi ein gwerth: sut allwn ni werthu ein gwerth cymdeithasol?**

- Martin Downes, Ymgynghorydd Arweiniol, Cwmpas a Sylfaenydd Start Something Good

**15:20** **Lluniaeth a Rhwydweithio**

**15:40** **Storïau o'r Sector - O Her i Newid**

- Dan Newman, Cyd-sylfaenydd, BALDILOCKS
- Dionne Bennett, Cyd-sylfaenydd, Tân Cerdd CIC
- Alison Westwood, Cyfarwyddwr, Baobab Bach CIC
- Lisa Davies, Prif Weithredwr, Tanio

**16:00** **Panel Holi ac Ateb**

- Bydd Sian Lloyd yn cadeirio panel o'r siaradwyr: Dr Jane Lynch, Mark McKenna, Rachel Probert, Martin Downes, Dan Newman, Dionne Bennett, Alison Westwood, Lisa Davies

**16:30** **O Dystiolaeth i Weithredu: Diweddariad SESG ar yr Arolwg Mapio, y Maniffesto, a'r Gweledigaeth a'r Cynllun Gweithredu**

- Adam Kennerley (CYD Wales)
- Rosie Cribb (Social Firms Wales)
- Dan Roberts (Cwmpas)

**17:00** **Bwffe rhwydweithio**

**18:00** **Gwobrau Busnes Cymdeithasol Cymru**

# Ein Noddwyr

Hoffem ddiolch i'n noddwyr a'n cefnogwyr ar gyfer 2025 am eu cefnogaeth hael i Wobrau a Chynhadledd Busnes Cymdeithasol Cymru.

AtkinsRéalis

**Noddwr Arian Categori 2 - Gwobr Arloesedd y Flwyddyn**

Mae AtkinsRéalis yn gwmni gwasanaethau proffesiynol a rheoli prosiectau blaenllaw sy'n ymroddedig i 'beiriannu dyfodol gwell i'n planed a'i phobl'. Rydym yn gweithio i sicrhau ein bod yn cyfrannu at Gymru Gyfrifol yn Fyd-eang wrth wneud y mwyaf o effeithiau lleol ar gyfer y cymunedau yr ydym yn byw ac yn gweithio ynddynt, gyda phob penderfyniad yn adlewyrchu 7 thema Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym yn darparu gwasanaethau ar draws cylch bywyd prosiect, gan gynnwys gwasanaethau ymgynghori, cynghori ac amgylcheddol, rhwydweithiau deallus a seiberddiogelwch, dylunio a pheirianneg, caffael, rheoli prosiectau ac adeiladu, gweithrediadau a chynnal a chadw, datgomisiynu a chyfalaf.

co op

**Noddwr Arian Categori 5 – Gwobr Meithrin Amrywiaeth, Cynhwysiant, Tegwch a Chyfiawnder**

Credwn fod byd teg a chynhwysol yn un lle mae pobl yn parchu ac yn dathlu eu gwahaniaethau, a bod gan bawb y cyfle i lwyddo. Wedi'r cyfan, dyna'r math o fyd yr ydym am fyw ynddo, a dyna pam yr ydym yn cofleidio talentau, credoau, cefndiroedd a galluoedd ein holl gydweithwyr ac aelodau. Rydym yn falch o noddi'r categori ar gyfer Gwobr Meithrin Amrywiaeth, Cynhwysiant, Tegwch a Chyfiawnder. Mae cyfiawnder cymdeithasol yn hanfodol i'r mudiadau mentrau cymdeithasol a chydweithredol.

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

**Noddwr Arian Categori 7 – Menter Gymdeithasol y Flwyddyn sy'n Seiliedig ar y Gymuned**

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) yn gydffederasiwn o nifer o sefydliadau addysg a cholegau Cymru. Prifysgol Llanbedr Pont Steffan yng Ngheredigion yw man geni addysg uwch yng Nghymru, a'r brifysgol hynaf yng Nghymru. Heddiw, mae gan y brifysgol gampysau yn Abertawe, Caerfyrddin, Llanbedr Pont Steffan, Caerdydd, Llundain, a Birmingham.

Mae MBA rhan-amser ar-lein mewn Entrepreneuriaeth Gymdeithasol yn annog astudiaeth uwch mewn rheoli adnoddau cynaliadwy ac addasu i gyd-destunau allanol, gan baratoi myfyrwyr i yrru newid cadarnhaol a blaenoriaethu llwyddiant ariannol trwy fentrau cymdeithasol cynaliadwy sy'n fuddiol i gymdeithas a chymunedau.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Noddwr Arian Categori 8 – Menter Gymdeithasol y Flwyddyn Cymru**

Rydym yn Gwneud y Peth Cywir: Mae ein nawdd i Wobrau Busnes Cymdeithasol Cymru yn adlewyrchu ymrwymiad Trafnidiaeth Cymru i werth cymdeithasol, twf cynhwysol ac ymgysylltu cymunedol. Fel corff cyhoeddus sy'n cael ei arwain gan bwrpas, rydym yn falch o gefnogi digwyddiad sy'n dathlu cyflawniadau mentrau cymdeithasol ledled Cymru.

Mae hyn yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau strategol a'n cyfrifoldebau statudol, gan atgyfnerthu ein cred bod trafnidiaeth yn ymwneud â mwy na symudiad, mae'n ymwneud â chreu cymunedau tecach, gwyrddach a mwy cysylltiedig.

Valleys to Coast

**Bronze sponsor**

Mae Valleys to Coast yn gymdeithas tai cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac sydd wedi'i lleoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sy'n darparu cartrefi a gwasanaethau i dros 6,000 o deuluoedd. Ochr yn ochr â'n his-gwmni atgyweirio a chynnal a chadw eiddo, Llanw, rydym yn angerddol am weithio gyda busnesau cymdeithasol ac entrepreneuriaid i greu cymunedau ffyniannus a gwydn.

I ni, mae'n ymwneud â mwy na chartrefi; mae'n ymwneud ag adeiladu cymdogaethau cryf, cefnogi mentrau lleol, a chreu cyfleoedd sy'n dod â manteision gwirioneddol i bobl a lleoedd.

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o gydweithio â busnesau cymdeithasol sy'n rhannu ein gwerthoedd. Gallai hynny olygu darparu gwasanaethau, cyd-ddatblygu prosiectau cymunedol, neu archwilio syniadau ffres ac arloesol sy'n cael effaith gadarnhaol.

Yn gyfnewid, gallwn agor drysau i gyfleoedd contract, partneriaethau cadwyn gyflenwi, a phrosiectau peilot ar draws Valleys to Coast a Llanw. Gallwn hefyd gynnig cefnogaeth, buddsoddiad, a chydweithrediad i helpu eich busnes i dyfu, gan sicrhau bod ein cwsmeriaid a'n cymunedau'n ffynnu.

Mae pobl yn dweud wrthym ni ein bod ni'n griw cyfeillgar sy'n malio'n fawr am wneud gwahaniaeth. Felly, os oes gennych chi ddiddordeb mewn adeiladu Pen-y-bont ar Ogwr a Chymru well gyda ni, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

## Ein Gwesteiwraig

### Sian Lloyd, Darlledwr



Mae Sian Lloyd yn newyddiadurwraig a darlledwraig brofiadol.

Mae hi'n wyneb cyfarwydd gyda gwylwyr ledled y DU fel cyflwynydd rhaglenni cenedlaethol, gan gynnwys BBC Breakfast, BBC Crimewatch Roadshow a Panorama.

Dechreuodd Sian Lloyd ei gyrfa ar y teledu a'r radio yng Nghymru fel gohebydd. Yna roedd hi'n gyflwynydd y rhaglen boblogaidd Wales Today ar y BBC a'r rhaglen radio amser gyrru ar y BBC Good Evening Wales.

Mae hi hefyd wedi gohebu ar rai o'r adegau allweddol yn hanes diweddar fel uwch ohebydd newyddion i'r BBC, gan ymddangos yn rheolaidd ar newyddion 6 o'r gloch a 10 o'r gloch y BBC yn ogystal â rhaglenni newyddion Radio 4.

# Ein Siaradwyr

### Y Cynghorydd John Spanswick, Arweinydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Y Cynghorydd John Spanswick yw Arweinydd a phennaeth gwleidyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn gyfrifol am ddarparu arweinyddiaeth ar gyfer strategaethau'r cyngor.

### Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros yr Economi, Ynni a Chynllunio



Mae Rebecca Evans wedi dal y rôl o Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ers mis Medi 2024.

### Bethan Webber, PSG, Cwmpas



Penodwyd Bethan Webber yn Brif Swyddog Gweithredol Cwmpas ym mis Mai 2023. Mae gyrfa Bethan yn cynnwys 17 mlynedd mewn polisi ar draws Whitehall, llywodraeth ranbarthol yn Lloegr, a Llywodraeth Cymru, cyn ymuno â'r trydydd sector.

### Richard Hughes, Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen a Chadeirydd bwrdd Cwmpas



Yn wreiddiol o Gefneithin ac yn gynnyrch Ysgol Gyfun Gwendraeth yn Sir Gaerfyrddin, dechreuodd Richard ei yrfa ym myd teledu a theatr cyn gyrfa llywodraeth leol ym maes hamdden, celfyddydau, diwylliant a thwristiaeth a barodd am 16 mlynedd.

Dechreuodd Richard rôl Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen ym mis Hydref 2015 ac mae wedi llywio'r sefydliad ers ei sefydlu i gyfnod newydd o dwf a datblygiad.

Daeth Richard yn aelod o fwrdd Cwmpas yn 2019 a chafodd ei ethol yn gadeirydd yn 2023.

# Cyfleoedd i fentrau cymdeithasol yn deillio o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

### Dr Jane Lynch, Cyfarwyddwr, Canolfan Caffael Gwerth Cyhoeddus, Ysgol Fusnes Caerdydd

Mae Dr Jane Lynch yn Athro Caffael, ac yn angerddol dros ymgorffori egwyddorion caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol ym mhob sector. Mae ymchwil Jane yn gymhwysol gyda ffocws penodol ar gaffael cyhoeddus, ymgorffori arloesedd, gwerth cymdeithasol, a gweithio cydweithredol strwythuredig. Mae Jane wedi traddodi nifer o areithiau allweddol yn genedlaethol ac yn fyd-eang ar y pynciau hyn ac yn ddiweddar mae wedi cyhoeddi dau adroddiad ymarferydd ar werth cymdeithasol.

Derbyniodd Jane Wobr Cyfleoedd Llywodraeth nodedig Unigolyn y Flwyddyn (2023) am ei chyfraniadau at gaffael cyhoeddus yng Nghymru ac mae hi'n Gadeirydd Cangen CIPS De Cymru ers amser maith. Yn fyd-eang, mae Jane yn cyd-arwain IRSPP (Astudiaeth Ymchwil Ryngwladol ar Gaffael Cyhoeddus). Mae IRSPP yn cynnal ymchwil newydd tua phob dwy flynedd gydag arweinwyr caffael mewn llywodraeth a pholisi o bob cwr o'r byd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan IRSPP.

# Storïau o'r Sector - Masnachu rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat

### Mark McKenna, Cyd-sylfaenydd a Phrif Swyddog Gweithredol, Down to Earth

Mae Mark yn gyfarwyddwr sefydlol y prosiect Down to Earth, a Down to Earth Construction, yn ogystal â bod yn Rheolwr Gyfarwyddwr i’r ddwy fenter gymdeithasol. Yn angerddol dros gydraddoldeb a dod â'r gorau allan mewn pobl, mae ei gefndir mewn gweithio gyda grwpiau 'anodd eu cyrraedd' a dulliau ymarferol o addysgu cynaliadwyedd.

Archwiliodd traethawd Meistr (MA) Mark sut mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chynaliadwyedd yn mynd law yn llaw, a dyma oedd sail Down to Earth. Ym mis Hydref 2020, dyfarnwyd MBE i Mark am ei wasanaethau i bobl ifanc a'r amgylchedd.

Ym mis Medi 2021, penodwyd Mark i fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru fel cyfarwyddwr anweithredol.

Mae Mark wedi bod yn byw'n hapus "off-grid" mewn tŷ pren ers dros 16 mlynedd ac mae ganddo ddwy ferch hyfryd.

### Rachel Probert, Arweinydd Gwerth Cymdeithasol, Trafnidiaeth Cymru

Mae Rachel Louise Probert yn arweinydd strategol mewn caffael cyhoeddus, llywodraethu, a gwerth cymdeithasol, gyda dros ddau ddegawd o brofiad o gyflawni canlyniadau sy'n gwasanaethu polisi a phobl. Fel Rheolwr Cydymffurfiaeth y Gadwyn Gyflenwi yn Trafnidiaeth Cymru, mae hi'n ymgorffori arferion moesegol, cynhwysol, ac yn canolbwyntio ar y dyfodol mewn systemau caffael cymhleth, yn unol â deddfwriaeth Cymru.

Yn gyn-addysgwraig a sylfaenydd Velocity for Life, mae Rachel yn dod â phrofiad byw, eiriolaeth niwroamrywiol, a meddwl systemau i bob sgwrs. Mae hi'n siarad yn angerddol am werth cymdeithasol, atebolrwydd, a defnyddio caffael fel offeryn ar gyfer effaith hirdymor.

## Storïau o'r Sector - O Her i Newid

### Dan Newman, Cyd-sylfaenydd, BALDILOCKS

Dan Newman yw cyd-sylfaenydd BALDILOCKS, menter gymdeithasol feiddgar sy'n herio'r stigma o amgylch colli gwallt trwy hiwmor, empathi a chysylltiad dynol.

Gan dynnu ar ei brofiad ei hun gydag alopesia, mae Dan yn arwain gyda bregusrwydd ac effaith, gan ddod â lles, addysg ac atebion cynhwysol i weithleoedd, salonau a mentrau gwerth cymdeithasol ledled Cymru. Genhadaeth BALDILOCKS yw i helpu pobl i ddisgleirio gyda neu heb wallt.

### Dionne Bennett, Cyd-sylfaenydd a Chyfarwyddwr Artistig, Tân Cerdd CIC

Mae Dionne Bennett yn Gyd-sylfaenydd a Chyfarwyddwr Artistig Tân Cerdd CIC, cwmni buddiant cymunedol cerddoriaeth a diwylliant du dan arweiniad pobl du, yn gantores, yn gyfansoddwraig caneuon ac yn ddarlithydd cerddoriaeth prifysgol.

Enillydd gwobr gymunedol Hanes Pobl Du Cymru 365 am ei chyfraniad at gerddoriaeth a chynhwysiant 2024, Dionne hi'n arwain gwaith ledled Cymru i hyrwyddo cerddoriaeth du, ymhelaethu ar leisiau amrywiol, ac adeiladu seilwaith a mannau bwriadol sy'n llunio dyfodol diwylliannol mwy cynhwysol a chynaliadwy.

### Alison Westwood, Cyfarwyddwr, Baobab Bach

Alison Westwood yw sylfaenydd a chyfarwyddwr Baobab Bach CIC, a ddatblygwyd mewn ymateb i angen y gymuned leol am fwyd fforddiadwy yn ystod pandemig Covid 19. Mae'r sefydliad yn canolbwyntio ar ailddosbarthu bwydydd dros ben, gan leihau tirlenwi, a thyfu bwyd yn lleol, sy'n cefnogi'r amgylchedd ymhellach.

Mae Alison yn gyn-ffisiotherapydd a drodd yn fenyw fusnes ac yn 'entrepreneur' cymdeithasol, sy'n cael ei hysbrydoli gan yr angen brys i leihau allyriadau carbon ledled y byd ac i ddarparu bwyd iach a fforddiadwy i gymunedau, gan gynnig cyfleoedd ar gyfer lles a chyflogaeth.

### Lisa Davies, Prif Weithredwr, Tanio

Mae Lisa wedi bod yn Brif Weithredwr yn Tanio ers 6 mlynedd. Mae hi wedi bod yn gweithio yn y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol yng Nghymru ers 25 mlynedd, gan arwain tair Elusen wahanol yn ogystal â chynhyrchu ffilmiau arobryn.

Gan ddod o gefndir dosbarth gweithiol, mae Lisa yn angerddol am agor cyfleoedd i bawb brofi profiadau artistig a chreadigol o ansawdd uchel, yn ogystal â deall yr effaith y gall y gweithgareddau hyn ei chael ar iechyd a lles. Mae ganddi MA mewn Cynhyrchu Ffilm a oedd yn canolbwyntio ar daith entrepreneuraidd yr unigolyn creadigol.

## Profi ein Gwerth – Sut Allwn Ni Werthu Ein Gwerth Cymdeithasol? - Gwersi o Ben-y-bont ar Ogwr

### Martin Downes, Ymgynghorydd Arweiniol – Dysgu a Datblygu Cwmpas, a Sylfaenydd Dechrau Rhywbeth Da

Martin yw'r Ymgynghorydd Arweiniol: Dysgu a Datblygu gyda Cwmpas, a sylfaenydd Start Something Good®, dull arloesol o gyd-ddylunio atebion a chreu syniadau ffres ar gyfer newid cymdeithasol. Ers mis Mawrth 2020 mae wedi arwain dros 70 hacathon mewn lleoliadau cymunedol, sefydliadol ac addysgol ledled Cymru, Llundain a'r Swistir. Mae hefyd wedi arwain rhaglenni menter gymdeithasol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Torfaen a Sir Benfro. Cyn hyn, ef oedd Swyddog Entrepreneuriaeth Gymdeithasol Busnes Cymdeithasol Cymru. Mae cefndir Martin mewn gwaith cymunedol, rheoli'r Trydydd Sector, cyhoeddi a busnes. Mae Martin yn awdur, yn siaradwr cyhoeddus, yn hwylusydd ac yn Gymrawd o Gymdeithas Frenhinol y Celfyddydau.

# O Dystiolaeth i Weithredu: Diweddariad Grŵp Rhanddeiliaid Menter Gymdeithasol Cymru ar yr Arolwg Mapio, y Maniffesto, a’r Cynllun Gweledigaeth a Gweithredu

Mae'r Grŵp Rhanddeiliaid Mentrau Cymdeithasol yn hyrwyddo gweledigaeth feiddgar: sefydlu menter gymdeithasol fel y fodel busnes o ddewis yng Nghymru erbyn 2030.

Yn y sesiwn hon, byddwn yn rhannu'r penawdau o'n adroddiad mapio’r sector, yr argymhellion allweddol o'n maniffesto cyn etholiadau’r Senedd 2026, a'n cynllun Gweledigaeth a Gweithredu sydd wedi'u hadnewyddu. Dyma'ch cyfle i glywed y dystiolaeth a'r data diweddaraf, dylanwadu ar bolisi a llunio gwaith yn y dyfodol.

Mae'r Grŵp Rhanddeiliaid Mentrau Cymdeithasol yn bartneriaeth strategol rhwng y sefydliadau sy'n cefnogi mentrau cymdeithasol yng Nghymru. Gyda'n gilydd, rydym yn gweithio i drawsnewid Cymru drwy sefydlu menter gymdeithasol fel y fodel busnes o ddewis yng Nghymru erbyn 2030.

## Adam Kennerley Prif Weithredwr, CYD Cymru

Adam Kennerly yw Prif Weithredwr Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, a Chynghorydd Sir ym Mhowys, lle mae'n arwain ar ymatebion Hinsawdd a Natur. Yn ecolegwr wrth ei hyfforddiant, mae Adam yn cefnogi cymunedau i reoli eu hasedau lleol i adeiladu economïau mwy gwydn, gwerthfawrogi'r amgylchedd, a chreu lles.

## Rosie Cribb, PSG, Social Firms Wales

Mae gan Rosie Cribb hanes hir o fewn y sector elusennol a mentrau cymdeithasol, gan gefnogi sefydliadau sy'n cael eu harwain gan bwrpas i dyfu a ffynnu. Mae Cwmnïau Cymdeithasol Cymru yn blaenoriaethu cynhwysiant cymdeithasol drwy gyflogaeth, yn enwedig ar gyfer pobl anabl, a grwpiau sy'n wynebu gwahaniaethu. Mae gan aelodau fynediad at rwydwaith cefnogol o fentrau cymdeithasol ac entrepreneuriaid, pob un yn ymdrechu i greu byd gwaith mwy cyfartal lle mae unigolion o gefndiroedd amrywiol yn cael eu hannog, eu cefnogi a'u gwerthfawrogi am eu cryfderau unigryw, eu profiad bywyd a'u galluoedd.

## Dr Dan Roberts, Uwch Swyddog Polisi ac Ymgysylltu, Cwmpas

Mae gan Dr Dan Roberts, PhD o Brifysgol Abertawe mewn Polisi Entrepreneuriaeth ac Agweddau Entrepreneuraidd yng Nghymru. Mae Dan yn cefnogi gwaith polisi'r Grŵp Rhanddeiliaid Mentrau Cymdeithasol. Gwaith Dan yw sicrhau bod llunwyr polisi a gwleidyddion yn deall ac yn gwerthfawrogi'r sector menter cymdeithasol, ac yn datblygu polisïau sy’n ei gefnogi'n effeithiol. Siaradwch ag ef am etholiadau'r Senedd, a sut y gallwn roi mentrau cymdeithasol wrth wraidd cynlluniau Llywodraeth nesaf Cymru.

# Gwobrau Busnes Cymdeithasol Cymru 2025

**Mae Gwobrau Busnes Cymdeithasol Cymru yn dathlu dyfnder, lled ac amrywiaeth y sector menter cymdeithasol yng Nghymru.**

Gwnaeth mwy na 100 o fentrau cymdeithasol wneud gais am Wobr Busnes Cymdeithasol Cymru yn 2025.

Dyma'r amser perffaith i gofleidio a hyrwyddo'r busnesau blaengar yma sydd datrys y problemau sydd wrth wraidd ein cymunedau, gan gadw'r economi gylchol ble y dylai fod, yn ogystal â chreu swyddi, codi incwm proffidiol, a gyrru masnach ar draws rhwydwaith o gyflenwyr, prynwyr, partneriaid a chwsmeriaid lleol.

Diolch i'n beirniaid o fusnesau ar draws y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, ac o fentrau cymdeithasol ledled Cymru, a roddodd eu hamser i wneud y penderfyniadau anodd iawn a welwch heno.



## Categorïau Gwobrau

Mae **Categori 1**, y wobr **Un i'w Wylio**, ar gyfer busnesau newydd arloesol, sy'n gwneud argraff yn eu dwy flynedd gyntaf.

Mae'r ymgeisydd terfynol o Gaerffili, **Our Voice Our Journey** yn cefnogi pobl ifanc 11–25 oed, yn enwedig y rhai sy'n ymdopi â thrais, anghydraddoldeb neu ymyleiddio. "Yn Ein Llais Ein Taith CIC, dydyn ni ddim yn siarad dros bobl ifanc – rydyn ni'n sefyll wrth eu hochr."





Dywed **Cegin y Bobl**, sydd leoli yn Llanarthne, Sir Gaerfyrddin: "Rydym yn credu bod bwyd yn ganolog i iechyd, lles, cynaliadwyedd amgylcheddol a chysylltiad cymunedol. Rydym yn blaenoriaethu ymgysylltu â phlant a theuluoedd sydd wedi'u hymylu, ac yn cefnogi defnyddwyr banciau bwyd, oedolion ynysig, a chymunedau gwledig."

Dywed **Greenspace SOS**, sydd wedi'i leoli yng Nghoety, Pen-y-bont ar Ogwr: "Rydym yn darparu gwasanaethau achub a gwella gerddi am ddim i deuluoedd a phobl agored i niwed, gan greu mannau diogel a chroesawgar sy'n cefnogi lles ac yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl."





Mae **Impact Wellbeing Solutions Ltd** wedi'i leoli ym Mhort Talbot, yn cynnal gweithdai ysgolion sy'n canolbwyntio ar ddatrys problemau ac adeiladu tîm, gan gryfhau cysylltiadau a grymuso unigolion i ffynnu fel rhan o gymuned wydn. "Rydym yma i helpu pobl i ddatgelu eu cryfderau a'u gwerthoedd, a symud tuag at newid cadarnhaol."

Mae **Categori 2, Arloesedd y Flwyddyn gan Fenter Gymdeithasol, a noddir gan Atkins Realis**, yn dathlu busnesau sydd wedi dod â rhywbeth ffres, newydd a chyffrous i'r farchnad, gyda'r nod o fynd i'r afael â materion cymdeithasol neu amgylcheddol.

Mae **Mothers Matter**, sydd wedi'i leoli yn Nhonypandy, wedi cefnogi mwy na 3000 o fenywod, dynion, a'u teuluoedd o genhedlu hyd at 5 oed trwy ofal seiliedig ar drawma ers 2020. “Rydym yn darparu gwasanaethau cyfannol sy'n pontio'r bwlch rhwng gofal clinigol a chefnogaeth gymunedol. Rydym yn herio'r stigma ac yn sicrhau nad oes unrhyw riant na theulu yn cael eu gadael i frwydro ar eu pen eu hunain.”





Datblygodd **Tanio**, elusen celfyddydau cymunedol, y prosiect Cysylltu Gofalwyr, gan gynnig gweithdai lles wythnosol i ofalwyr di-dâl ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. “Helpodd y gweithdai i leihau unigrwydd ac arwahanrwydd, a chreu cyfle i ofalwyr di-dâl rannu meddyliau a theimladau, ac i eiriol dros eu hanghenion eu hunain.”

Mae’r ymgeisydd terfynol o Gaerdydd, **Holistic Hoarding** yn mynd i’r afael â’r bwlch critigol mewn gwasanaethau cymorth i unigolion sy’n cael trafferth gydag ymddygiadau casglu, yn enwedig y rhai sy’n wynebu dadfeddiant ac ynysu cymdeithasol oherwydd problemau iechyd meddwl cymhleth. “Mae ein cymorth yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau fel gwneud penderfyniadau a datrys problemau, a chreu lle byw mwy diogel a haws i’w reoli.”

holistic hoarding

Mae **categori 3, Profwch: y Wobr Effaith Gymdeithasol**, ar gyfer mentrau cymdeithasol a all ddangos eu heffaith gymdeithasol drwy ddata clir, straeon, a chanlyniadau sy'n gysylltiedig â'u cenhadaeth.

Mae **Elite Clothing Solutions** ym Mhont-y-clun yn cynhyrchu ac yn brandio dillad gwaith o ansawdd uchel. "Mae dros 45% o'n gweithlu yn anabl neu dan anfantais. Rydym yn darparu hyfforddiant strwythuredig, cyflogaeth â thâl, a gweithle wedi'i gynllunio i gefnogi twf personol a phroffesiynol. Rydym yn falch o wnïo cynaliadwyedd, cyfle, a balchder yn ôl i wead diwydiant Cymru."



Mae **Down to Earth**, sydd wedi'i leoli yn Abertawe, yn mynd i'r afael â rhai o heriau amgylcheddol a chymdeithasol mwyaf ein hoes - ar yr un pryd - trwy gyd-ddylunio a chyd-greu cartrefi, ysgolion ac ysbytai gan ddefnyddio dyluniad a deunyddiau sy'n canolbwyntio ar natur yn unig. "Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi gweithio gyda dros 1800 o gyfranogwyr o gefndiroedd sydd mewn perygl ac wedi'u hymylu i greu newidiadau rhyfeddol yn eu bywydau, a'r cymunedau o'u cwmpas. Mae'r effaith yn drawsnewidiol."



Mae **Prosiect Baxte**r, rhan o Grŵp Gweithgareddau Therapiwtig CIC, wedi'i adeiladu ar y syniad mai ymddiriedaeth a mwynhad yw'r porth i newid. "Mae ein model yn paru ymarferwyr â chŵn i gyflwyno sesiynau sy'n seiliedig ar drawma mewn ysgolion. Maen nhw'n hwyl, ac yn gynnes. Unwaith y bydd plentyn yn teimlo ei fod yn cael ei weld ac yn ddiogel, rydym yn dechrau mynd i'r afael â phroblemau sylfaenol. Mae'n waith amyneddgar, ond mae'n effeithiol."

Mae **Heol Chwarae Rol** ym Mhontypridd yn darparu sesiynau chwarae rôl gynhwysol a fforddiadwy, partïon pen-blwydd, tripiau ysgol, llogi cymunedol, a caffi croesawgar i deuluoedd. "Mae ein gwaith yn mynd y tu hwnt i chwarae. Rydym yn lle diogel, dibynadwy lle mae pobl yn cysylltu, yn dysgu ac yn ffynnu. Mae Heol Chwarae Rol yw lle ble mae cyfeillgarwch yn ffurfio, lles yn gwella, hyder yn tyfu, a dyfodol yn newid."



Mae **Categori 4, Menter Gymdeithasol Amgylcheddol y Flwyddyn**, yn dathlu busnesau y mae eu cenhadaeth graidd yn mynd i'r afael â materion amgylcheddol.



Mae **Groundwork Gogledd Cymru** yn hybu lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, ac yn trawsnewid bywydau mewn cymunedau difreintiedig trwy ystod o raglenni ledled gogledd Cymru sy'n canolbwyntio ar yr awyr agored a gweithgaredd ymarferol. "Rydym yn ymgysylltu â chymunedau i ddiogelu'r amgylchedd naturiol, ac yn cefnogi pobl i ailddefnyddio/ailgylchu/atgyweirio mwy o eitemau cartref."

Mae **Datblygu Egni Gwledig (DEG)**, sydd wedi'i leoli yng Nghaernarfon, wedi ymrwymo i faterion amgylcheddol a chyfiawnder cymdeithasol. "Rydym wedi cefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol lleol y rhagwelir y byddant yn cynhyrchu digon o drydan i bweru 585 o gartrefi; ac rydym yn cefnogi cymunedau i ddefnyddio ynni'n fwy effeithiol, lleihau dibyniaeth ar danwydd ffosil, a lleihau defnydd a chostau ynni. Mae pob £1 a fuddsoddir mewn DEG yn cynhyrchu £3.58 mewn gwerth cymdeithasol."




GROUNDWORK
CHANGING PLACES
CHANGING LIVES

Mae **Groundwork Cymru** yn gweithio ar draws rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn Ne Cymru i leihau tlodi a gwarchod amgylcheddau lleol. "Rydym yn hybu dysgu, cyflogadwyedd, iechyd a lles, yn cefnogi cymunedau i ailgynllunio a defnyddio mannau agored sydd wedi'u hesgeuluso, ac yn dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi trwy ein siop ailddefnyddio."

Mae **Categori 5, Menter Gymdeithasol sy'n Meithrin Amrywiaeth, Cynhwysiant**, **Tegwch a Chyfiawnder,** a noddir gan y Co-op, ar gyfer busnesau sy'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb yn weithredol.

MORE THAN **FLAGS AND RAINBOWS**
Helping schools be more inclusive

Sefydlwyd **More Than Flags and Rainbows (MTFAR)** yng Nghaerdydd gan gyn-ddirprwy brifathro a brofodd fwlio homoffobig fel disgybl ac yn ddiweddarach fel athro. "Rydym wedi tyfu i fod yn sefydliad cenedlaethol sy'n gweithio i wneud addysg Cymru yn well, yn decach ac yn fwy cynhwysol, i fynd i'r afael â bwlio, ac i arferoli amrywiaeth ar draws y cwricwlwm. Rydym wedi gweithio gyda mwy na 4,000 o addysgwyr a phobl ifanc ers lansio yn 2024."

Aeth sylfaenydd **The Tax Academy**, sydd wedi'i leoli yn Sir Ddinbych, cyn Cyfrifydd Siartredig, i'r carchar ym mis Hydref 2013 am bedwar mis, ac mae'n darparu cymorth treth ac addysg treth i garcharorion ym mhob carchar yng Nghymru. "Rydym wedi ymdrin â mwy nag 8,000 o achosion treth mewn 10 mlynedd. Rydym am helpu carcharorion i gael trefn ar eu materion treth, fel y gallant ail-integreiddio i gymdeithas a dechrau cyflogaeth ar ôl cael eu rhyddhau heb gael eu baich gan ddyled treth."

THE TAX ACADEMY™

ASSADAQAAT
COMMUNITY FINANCE

Mae **Cyllid Cymunedol Assadaqaat**, o Gaerdydd, yn darparu cyllid di-log, cymorth busnes wedi'i deilwra, hyfforddiant a mentora i'r rhai sydd wedi'u heithrio'n draddodiadol o gyllid prif ffrwd. "Ni ddylai cyllid byth fod yn rhwystr i gyfle. Ein cenhadaeth yw grymuso pobl i wireddu eu potensial, torri cylchoedd o eithrio, ac adeiladu economi decach a mwy gwydn."

Mae mentrau cymdeithasol yn llawer mwy tebygol o gael eu rhedeg a'u harwain gan fenywod na busnesau traddodiadol, ac mae **Pencampwr Menywod Menter Gymdeithasol y Flwyddyn**, yn anelu at ddathlu arweinyddiaeth, eiriolaeth ac effaith fenywod.

**Helen Davies** yw sylfaenydd **Sunflower Lounge** yng Nghastell-nedd, sy'n meithrin pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, y rhai sy'n gadael gofal, a phobl ifanc sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd. “Yn aml, mae'r ddealltwriaeth gywir a'r gefnogaeth unigryw ar goll i bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Mae Sunflower Lounge wedi'i hadeiladu o amgylch eu hanghenion. Os ydych chi'n rhan o'r llwyth, dydych chi byth ar eich pen eich hun.”





**Hannah Evans** yw cyfarwyddwr **Qualia Law CIC**, sy'n arbenigo mewn materion eiddo ac ariannol o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, gan gefnogi pobl efo anghenion ychwanegol. “Fe wnaethon ni sefydlu fel math newydd o wasanaeth cyfreithiol ar gyfer y bobl fwyaf agored i niwed. Mae ein gwaith yn atal cam-drin ariannol yn uniongyrchol, yn gwella iechyd a lles, ac yn amddiffyn ymreolaeth.”

Mae **Kelly Farr** yn arwain y **Female Veterans' Alliance**, sy'n darparu encilfeydd lles preswyl a gweithdai i dros 200 o fenywod sydd wedi wasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU, gan adlewyrchu ymrwymiad Kelly i yrru newid ledled y sector a throi rhwystrau i gweithred. “Mae'r mannau hyn wedi mynd i'r afael â materion hollbwysig fel trawma rhywiol milwrol, colli hunaniaeth, iechyd meddwl ac unigedd, gan gynnig iachâd, grymuso, cysylltiad ac eiriolaeth.”



Mae **Categori 7, Menter Gymdeithasol Gymunedol y Flwyddyn**, a noddir gan **PCYDDS**, ar gyfer mentrau sydd â gwreiddiau mewn cymunedau sy'n cyflawni effaith leol uchel.

Mae'r **Fern Partnership** wedi'i gwreiddio yn y gred bod pob plentyn, pob teulu, a phob cymuned yn haeddu'r cyfle i ffynnu. "Rydym yn rhedeg chwe chyfleuster gofal plant Little Ferns, wedi'u lleoli yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymoedd Rhondda a Chynon, sy'n darparu lle diogel a meithringar lle mae hyder yn ffynnu. Mae ein gofal plant hefyd yn cefnogi rhieni, gan eu helpu i ddychwelyd i'r gwaith, hyfforddiant, neu addysg gyda'r sicrwydd bod eu plant mewn dwylo rhagorol."

Mae **Menter y Plu** yn rhedeg **Y Plu**, tafarn hanesyddol y pentref yn Llanystumdwy, Gwynedd, gan gyfuno treftadaeth, bywyd diwylliannol a chydnerthedd economaidd i wasanaethu'r gymuned leol. "Fel menter gymdeithasol sy'n eiddo i'r gymuned ac sy'n seiliedig ar y Gymraeg, mae Menter y Plu yn cyfuno treftadaeth, bywyd diwylliannol a chydnerthedd economaidd i wasanaethu'r gymuned leol."

Mae **Choirs For Good** yn rhedeg 12 côr cymunedol ledled Cymru sy'n gwella lles meddyliol a chorfforol ac yn hybu dysgu gydol oes a chysylltiad trwy bŵer canu grŵp. "Mae canu yn weithred bwrpasol o les cymdeithasol, gan helpu pobl i deimlo'n dda, gwneud daioni, a chynnal y lles hwnnw er gwell. Rydym yn gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill i gynhyrchu effaith gymdeithasol, ddiwylliannol, amgylcheddol ac economaidd gadarnhaol."

Mae **Oriel Elysium** yn cynnal rhaglen o weithdai am ddim i deuluoedd incwm isel a chymunedau sydd wedi'u hymylu'n ddiwylliannol yn Abertawe, gan ddenu dros 25,000 o ymwelwyr y flwyddyn. "Rydym yn sefydliad dan arweiniad niwroamrywiol sydd wedi'i wreiddio mewn pobl, lle a phwrpas, gan ddarparu gweithgareddau a chyfleoedd i unigolion awtistig a niwroamrywiol archwilio, creu a chydweithio i adrodd eu straeon eu hunain a dysgu sgiliau newydd."

Mae **Categori 8, Gwobr Menter Gymdeithasol y Flwyddyn**, noddir gan **Trafnidiaeth Cymru**, yn dathlu mentrau cymdeithasol mwyaf perfformio 2025 sy'n dangos twf cryf, cynaliadwyedd, effaith gymdeithasol ac arweinyddiaeth yn eu maes.

PLATFFORM
For mental health and social change
Dros iechyd meddwl a newid cymdeithasol

Mae **Platfform** wedi rhedeg gwasanaethau iechyd meddwl a chymunedol am dros 35 mlynedd, ac mae ganddo bortffolio o dros 140 o brosiectau wedi'u lleoli ledled De Cymru. “Rydym yn dod o hyd i ffyrdd o sefydlogi amgylchiadau pobl, ac adeiladu gobaith ar gyfer y dyfodol, trwy ymyriadau wedi'u creu ar y cyd ac wedi'u teilwra'n bwrpasol dan arweiniad y bobl rydym yn gwasanaethu. Rydym yn mabwysiadu dull gydol oes fel y gall pawb deimlo eu bod yn perthyn a ffynnu.”

Wedi'i sefydlu ym 1985, mae **GISDA** yn darparu cefnogaeth a llety, sy'n canolbwyntio ar y person, ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed neu yn ddigartref yng Ngwynedd. “Mae cyrraedd pob unigolyn mewn angen yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel. Mae ein dull therapiwtig yn cael ei arwain gan bobl ifanc, ar gyfer pobl ifanc, ac mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd cael mynediad at fannau gwyrdd a gwneud y defnydd mwyaf o'r celfyddydau mewn amrywiol ffurfiau.”

GISDA
CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

Mae **Down to Earth** a **The Fern Partnership** hefyd yn y rownd derfynol yng nghategori Menter Gymdeithasol y flwyddyn.

(Wedi cyrhaedd y rownd derfynol yng Nghategori 3 a Chategori 7 yn y drefn honno).

Down To Earth DOING GOOD THINGS TOGETHER

INSPIRE • ENCOURAGE • GROW
THE FERN PARTNERSHIP
TOGETHER AS A COMMUNITY

# Diolch i'n Beirniaid

**Julie Lloyd, rheolwr Cyfranogiad Cymunedol ac Aelodaeth, y Co-op**

Mae'r Co-op yn gweithio gyda'i haelodau-berchnogion i weithredu ar y materion sy'n bwysig – ac mae Julie Lloyd yn gweithio gydag aelodau'r Co-op i ddod â sefydliadau o'r un anian at ei gilydd er budd y gymuned, a rhoi cydweithrediad a chwmnïau cydweithredol wrth wraidd adeiladu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion y rhai sydd fwyaf dan anfantais. Mae Julie hefyd yn ddarlithydd mewn Troseddeg a Fforensig yng Ngholeg Craven.

**Julian John, Prif Swyddog Gweithredol, Delsion**

Yn flaenorol, roedd gan Julian yrfa lwyddiannus ar lefel uwch ym maes Adnoddau Dynol, ond dangosodd ei brofiadau o ddod yn anabl nad oedd y byd gwaith wedi'i gyfarparu i gefnogi ei anghenion.
Y profiad yma oedd n rym y tu ôl i sefydlu Delsion, cwmni ymgynghori sy'n ymroddedig i bobl a datblygiad, gyda ffocws cryf ar gynhwysiant a pherthyn. Deng mlynedd yn ddiweddarach, mae Delsion yn ymgynghoriaeth pobl a datblygu sydd wedi ennill sawl gwobr ac sy'n cael ei chydnabod yn rhyngwladol am ei gwaith o helpu sefydliadau i feithrin diwylliant ac ymddygiadau cadarnhaol, a'u hannog i roi ecwiti, amrywiaeth, cynhwysiant a pherthyn wrth wraidd eu busnes.

**Jamie Lannen, Cyfarwyddwr Rhanbarthol a Phennaeth Tîm Rheoli Prosiectau Cymru, Atkins Realis**

Jamie Lannen yw Cyfarwyddwr Rhanbarthol a Phennaeth Tîm Rheoli Prosiectau Cymru gyda AtkinsRéalis. Gyda 26 mlynedd yn y diwydiant amgylchedd adeiledig, mae hefyd yn gyfarwyddwr ac yn aelod o bwyllgor The Construction Club ac yn gyn-gadeirydd y Fforwm ar gyfer yr Amgylchedd Adeiledig.

**Trystan Jones, Prif Weithredwr, The Community Impact Initiative**

Trystan Jones yw Prif Weithredwr The Community Impact Initiative CIC (y Cii), menter gymdeithasol sydd wedi ennill sawl gwobr sy'n trawsnewid bywydau a chymunedau trwy adfywio cartrefi gwag. O dan ei arweiniad, mae Cii wedi cefnogi cannoedd o bobl i wella eu hiechyd, eu lles a'u rhagolygon bywyd wrth ddod ag eiddo gwag ledled Cymru yn ôl i ddefnydd. Yn 2024, enwyd y Cii yn Fenter Gymdeithasol y Flwyddyn Cymru, gan gydnabod ei harloesedd, ei effaith a'i gynaliadwyedd. Mae Trystan yn angerddol am ddefnyddio tai fel catalydd ar gyfer newid a galluogi pobl i adeiladu dyfodol disgleiriach.

**Rachel Probert, Arweinydd Gwerth Cymdeithasol, Trafnidiaeth Cymru**

Yn gyn-addysgwraig a sylfaenydd Velocity for Life, mae gan Rachel fwy nag 20 mlynedd o brofiad o adeiladu arferion moesegol, cynhwysol, ac sy'n canolbwyntio ar y dyfodol mewn systemau caffael cymhleth sy'n gwasanaethu polisi a phobl. Mae Rachel yn dod â phrofiad byw, eiriolaeth niwroamrywiol, a meddwl systemau i bob sgwrs, ac mae'n angerddol am gydbwyso gwerth cymdeithasol ac atebolrwydd, a defnyddio caffael fel offeryn ar gyfer effaith hirdymor.

**Sheree Jonas, Swyddog Cydraddoldeb Hiliol ym Mhrifysgol Aberystwyth**

Cefnogodd Sheree Jonas Brifysgol Aberystwyth i dderbyn gwobr efydd Siarter Cydraddoldeb Hiliol Addysg Uwch Uwch am eu gwaith o wella cynrychiolaeth a chynhwysiant pobl o leiafrifoedd ethnig. Hi yw sylfaenydd a chyfarwyddwr y cwmni buddiannau cymunedol Represent Us Rural Ltd, a sefydlwyd i gefnogi pobl ifanc o leiafrifoedd ethnig mewn ardaloedd gwledig.

## Mae noddi Gwobrau a Chynhadledd Busnes Cymdeithasol Cymru yn darparu:

- Proffil a gwelededd: cysylltiad â'r prif blatfform ar gyfer mentrau cymdeithasol yng Nghymru, gan gyrraedd cannoedd o sefydliadau, cyllidwyr, llunwyr polisi a'r cyfryngau sy'n cael eu gyrru gan bwrpas.
- Hygrededd ac aliniad: dangos ymrwymiad gwirioneddol i fusnes cyfrifol, effaith gymunedol, a nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.
- Rhwydweithio a pherthnasoedd: mynediad uniongyrchol at fentrau cymdeithasol, arloeswyr, a busnesau sy'n cael eu gyrru gan werthoedd sy'n ail-lunio economi Cymru.
- Piblinell dalent ac arloesi: cipolwg ar syniadau a sefydliadau arloesol sy'n datrys heriau cymdeithasol ac amgylcheddol.
- Gwella enw da: cydnabyddiaeth fel cefnogwr blaengar o dwf cynhwysol a chreu gwerth cymdeithasol.

cwmpas

CYD Cymru DTA Wales
Cymunedau'n Cefnogi Cymunedau
Communities Supporting Communities

socialfirmswales
enterprise, employment, empowerment

WCVA
CGGC

UnLtd